| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **13 MEDI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DYRANNU GRANTIAU LLAI 2016/17** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD I BWYLLGOR YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN YNGHYLCH PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL AR DDYRANNU GRANTIAU LLAI AR GYFER 2016/17** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **PENDERFYNU A OES ANGEN I'R YMDDIRIEDOLAETH LAWN GYMERADWYO PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL MEWN PERTHYNAS Â GRANTIAU BACH** |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Bob blwyddyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn dyrannu swm o arian i ariannu ceisiadau am grantiau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon sy'n llai na £8,000 ( "grantiau bach"). Yn achos grantiau 2016/17, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud dau benderfyniad eisoes o ran y broses dyfarnu grantiau a pha Bwyllgor (Grantiau Cyffredinol neu'r Ymddiriedolaeth Llawn) sydd â'r awdurdod i wneud y penderfyniad.

**1.2** Ar 27 Ionawr 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i ddyrannu swm o £125,000 tuag at Gyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon ac y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gymeradwyo'r symiau a ddyrennir i sefydliadau unigol. Fodd bynnag, ar 15 Mawrth 2016, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth sylw i adroddiad ar gyllideb 2016/17 a phenderfynodd ddirprwyo i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol y swm o £125,000 i ymdrin â cheisiadau ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon.

**1.3** Roedd geiriad y penderfyniadau yn codi o eiriad yr adroddiadau a baratowyd gan y Swyddogion ond mae anghysondeb amlwg rhwng geiriad y ddau benderfyniad. Mae'r anghysondeb wedi arwain at oedi o ran hysbysu sefydliadau ar ganlyniad eu cais ac mae'n aneglur erbyn hyn a oes angen i'r Ymddiriedolaeth lawn gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ai peidio.

## 2. CRYNODEB O'R CEISIADAU A DDERBYNIWYD YN 2016

**2.1** Ym Mawrth 2016, rhoes yr Ymddiriedolaeth hysbyseb mewn dau bapur newydd lleol ac ar dudalennau Facebook a Twitter y Cyngor, gan wahodd cyrff i ymgeisio am grantiau bach ar gyfer 2016/17. Byddai'r grantiau hyn yn cael eu hariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a Chronfa'r Degwm.

**2.2** Derbyniwyd 41 o geisiadau i gyd, ac roedd 33 o'r ceisiadau hyn am grantiau gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac 8 o geisiadau am grantiau o Gronfa'r Degwm. Cafodd y ceisiadau am grantiau gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn eu hystyried ar 13 Gorffennaf 2016 gan y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**2.3** Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo 18 o geisiadau yr oedd eu cyfanswm yn £61,398. Fodd bynnag, nid oedd 5 o'r ceisiadau yn cynnwys y wybodaeth yr oedd y Pwyllgor ei hangen i wneud penderfyniad ar y diwrnod, a phenderfynwyd y byddai ail gyfarfod yn cael ei drefnu i benderfynu ar y ceisiadau hyn. Nid yw’r cyfarfod hwn wedi ei gynnal hyd yma, ac mae cyfanswm y 5 cais yn £26,734. Cafwyd 10 cais a oedd yn aflwyddiannus.

**2.4** Mae manylion y ceisiadau unigol a phenderfyniad / argymhelliad y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol yn cael eu nodi yng nghofnodion y Pwyllgor sy'n ymddangos fel eitem ar wahân ar y rhaglen hon.

## 3. PENDERFYNIAD I’R YMDDIRIEDOLAETH

**3.1** Gofynnir i'r Ymddiriedolaeth benderfynu a oes angen i’r Ymddiriedolaeth Lawn gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol mewn perthynas â Grantiau Bach neu a ddylid dirprwyo’r penderfyniad i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. Bydd canlyniad y penderfyniad hwn yn effeithio ar y penderfyniad y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei wneud wrth ystyried cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol. h.y.: -

**i.** Os oes angen i’r Ymddiriedolaeth Lawn gymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Grantiau Gyffredinol, yna mae angen i fwyafrif yr Aelodau sy’n bresennol yn y cyfarfod ganiatáu.

**ii.** Os bydd y penderfyniad ar Grantiau Bach yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, yna nid oes ond angen i'r Ymddiriedolaeth nodi cofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **5 MEDI 2016**